# Adroddiad Blynyddol Cyngor Cymuned Llangywer

# 2024-25

*Wrth gyflwyno'r adroddiad hwn, hoffwn ddiolch i'm cyd-gynghorwyr am y fraint o gael cadeirio cyfarfodydd y Cyngor am y ddwy flynedd diwethaf, a diolch iddynt yn arbennig am eu hynawsedd a'u parodrwydd i symud ymlaen i warchod yr ardal a'i thrigolion.*

*Teimlaf ein bod wedi gwneud cynnydd da gyda'r broblem o or-dwristiaeth a hoffwn ddiolch yn arbennig i swyddogion Parc Cenedlaethol Eryri am deithio yma ar dair noson i geisio ein helpu.*

*Datblygiad sydd wedi ei gwblhau eleni yw'r llwybr newydd yn y fynwent a diolchwn i Parc Cenedlaethol Eryri a theuluoedd lleol am gyllid i helpu dalu am y gwaith.*

*Mawr yw ein dyled fel cymuned i'r Cynghorydd Alan Jones Evans sydd yn hynod effeithiol i gael swyddogion Cyngor Gwynedd i ymateb i'n pryderon lleol.*

*Diolch hefyd i'n Clerc dyfal sydd yn gefn cadarn i'r Cyngor.*

*Dymunaf yn dda iawn i'r Cadeirydd newydd.*

*D Clwyd Davies*

Cynhelir cyfarfodydd Cyngor Cymuned Llangywer yn Neuadd Gywair 6 gwaith y flwyddyn. Rhoddir hysbysiad o bob cyfarfod ar yr Hysbysfwrdd wrth giât y Neuadd ac ar y wefan www.cynghoraupenllyncouncils.co.uk (Llangywer)

**Cynghorwyr**

Mae 3 Cynghorydd yn cynrychioli ward Cwm y Glyn: Clwyd Davies, Geraint Roberts, Dafydd Williams

Mae 4 Cynghorydd yn cynrychioli ward Gwalia: Eleri Jones, Emyr Jones, Gwyn Roberts, Tyly Roberts

Llanuwchllyn yw'r ward ar gyfer cymuned **Cwm y Glyn** yng Nghyngor Gwynedd: Cynghorydd Alan Jones Evans

Llandderfel yw'r ward ar gyfer cymuned **Gwalia** yng Nghyngor Gwynedd: Cynghorydd Elwyn Edwards

**Clerc:** Lis Puw, cyngor-llangywer@outlook.com 07896964120

Lis Puw, Bedw Gwynion, Llanuwchllyn, Gwynedd LL23 7TW
01678540654 07896964120
lis_puw@hotmail.co.uk

**Ariannol 2024-25**

| | |
|---|---|
| Balans yn y llyfr arian ar 1/4/24 | £3674.00 |
| praesept | 4725.00 |
| incwm arall (TAW, grant a rhoddion) | 1095.00 |
| **Is-gyfanswm** | **9494.00** |
| llai costau staff | £800.00 |
| llai taliadau eraill | 6242.00 |
| **is-gyfanswm** | 7042.00 |
| Balans ar 31/3/25 | **£2452.00** |

**Cynllun Hyfforddi:**

2024 - Hyfforddiant ar Ardal Ni - Penllyn (Cyngor Gwynedd)

Trefnwyd cyfarfodydd cyhoeddus gyda swyddogion Parc Cenedlaethol Eryri a Heddlu Gogledd Cymru i gymryd lle hyfforddiant ffurfiol.

**Archwilio:**

Adroddiad yr Archwilydd Mewnol 2023-24 - ar y wefan

Adroddiad yr Archwilydd Allanol 2023-24- Heb gyrraedd o Swyddfa Archwilio Cymru

Adroddiad yr Archwilydd Mewnol 2024-25 - Derbyniwyd

**Amcanion ar gyfer y flwyddyn 2024-25**

- Gofalu am y llwyni ffrwythau; plannu coed gyda chymorth Parc Cenedlaethol Eryri a'r cyhoedd - **CYFLAWNWYD**
- Cwblhau'r broses o gofrestru'r fynwent gyda'r Gofrestra Tir - **CYFLAWNWYD**
- Creu llwybr yn y fynwent i wella hygyrchedd – **CYFLAWNWYD**

**Ymgysylltu gyda'r Gymuned:** Cynhaliwyd 2 gyfarfod cyhoeddus gyda swyddogion Parc Cenedlaethol Eryri a Heddlu Gogledd Cymru i drafod twristiaeth cynaliadwy yn yr ardal. Roedd cynulliad niferus o'r cyhoedd yn bresennol. Fel rhan o'r ymgyrch, mae Cyngor Gwynedd wedi dynodi'r B4403 yn

Glirffordd. Disgwylir mwy o arwyddion i dynnu sylw i gall cerbydau cael eu llusgo o'r ffordd. Mae hyn yn bennaf er mwyn iechyd a diogelwch trigolion a thwristiaid. Bu i'r Heddlu ymateb trwy ddreifio heibio yn achlysurol yn 2024. Cyflogwyd Wardeiniaid dros dro ar gyfer yr haf a bwriada Parc Cenedlaethol Eryri wella'r arwyddion a'r meysydd parcio yn ystod tymor 2025-26.

**Asedau:**

Mynwent Eglwys Santes Gwawr
Ciosg 1
Ciosg 2
Diffib
Diffib
Hysbysfwrdd

Chwefror 2022 – rhoddion i'r Cyngor
Brushcutter
batri
charger
Berfa
2 Gribyn

**Cynllun Bioamrywiaeth:** Cyflawnwyd cynlluniau 2024-25. Bwriedir gwella bioamrywiaeth yn y Fynwent trwy plannu coed yw yn 2025-26 (dan ofal Parc Cenedlaethol Eryri )

**Cynnydd yn y flwyddyn:** Cofrestrwyd y fynwent gyda'r Gofrestra Tir; crëwyd llwybr yn y fynwent; cynhaliwyd cyfarfodydd gyda'r cyhoedd ac eraill i drafod lliniaru effeithiau gor-dwristiaeth.

**Blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn 2025-26**

- Parhau i gyd-weithio gyda Cyngor Gwynedd, Parc Cenedlaethol Eryri a Heddlu Gogledd Cymru i reoli twristiaeth yn ardal y llyn a gwarchod y cynefin naturiol
- Pwyso am arwydd "DIM BYSUS NA CHERBYDAU TRYMION" wrth bont Mwnwgl y Llyn ac ar groesffordd Cynllwyd (Cyngor Gwynedd )
- Pwyso am arwydd a marciau ffordd ARAF wrth y Neuadd ac ochr Llanuwchllyn o'r maes parcio, gan fod plant yn awr yn defnyddio'r Neuadd yn rheolaidd (Cyngor Gwynedd )
- Brwydro i gadw ffiniau'r Cyngor Cymuned (Cyngor Gwynedd )
- Ystyried gwneud yr ardal yn un cydnaws a'r ymgyrch Awyr Dywyll ym Mhenllyn (Parc Cenedlaethol Eryri)

Lis Puw, Bedw Gwynion, Llanuwchllyn, Gwynedd LL23 7TW
01678540654 07896964120
lis_puw@hotmail.co.uk